

Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen

Cyfarwyddwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfa - cytundeb tymor sefydlog

Mae Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn dymuno penodi Cyfarwyddwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfa ar gytundeb tymor sefydlog rhan amser. Bydd y swydd hon yn arwain cynllunio marchnata strategol ac yn cyfarwyddo gweithgareddau marchnata ar gyfer yr Eisteddfod, er mwyn cyflawni nodau cytûn o ran datblygu cynulleidfa dros gyfnod penodol o amser. Gan weithio gyda'r Prif Swyddog Gweithrediadau a'r Swyddog Marchnata, a chan adrodd i'r Grŵp Swyddogion, bydd y Cyfarwyddwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfa yn llunio strategaeth fusnes yr Eisteddfod gan ganolbwyntio ar dyfu cynulleidfa a datblygu busnes, ynghyd â monitro a gwerthuso. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygu a mentora dau aelod staff presennol i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn sicrhau y gellir cynnal cynllun datblygu hir dymor unwaith y daw'r penodiad hwn i ben.

Disgrifiad Cwmni

Mae Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ("yr Eisteddfod") wedi bod yn eicon diwylliannol rhyngwladol ers ei sefydlu yn 1947 ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Nod yr Eisteddfod yw hyrwyddo heddwch ac ewyllys da rhwng cenedloedd a darparu addysg a gwybodaeth am y celfyddydau trwy gyflwyno gŵyl flynyddol o gerddoriaeth a dawns rhyngwladol.

Cwmni cyfyngedig trwy warant yw'r Eisteddfod ac mae'n elusen gofrestrdig. Mae ei chorff llywodraethu yn Fwrdd o 13 ymddiriedolwr gwirfoddol, gyda 4 ohonynt hefyd yn aelodau o dîm rheoli canolog, sef y Grŵp Swyddogion. Mae yna amrywiaeth o bwyllgorau gwirfoddol sy'n gyfrifol am y meysydd swyddogaethol sy'n angenrheidiol ar gyfer darparu'r Eisteddfod ac mae'r Eisteddfod yn ddibynol iawn ar gefnogaeth gwirfoddolwyr trwy gydol y flwyddyn, ac yn ystod wythnos yr Eisteddfod ei hun. Mae gan yr Eisteddfod dîm bychan o staff cyflogedig gyda rhai gwasanaethau, megis cysylltiadau cyhoeddus a nawdd, yn cael eu rhoi allan ar gytundeb.

Yr Eisteddfod

Mae'r Eisteddfod yn ŵyl o gerddoriaeth a dawns ryngwladol gyda rhaglen amrywiol o weithgareddau. Yn ystod y dydd cynhelir cystadlaethau cerddoriaeth a dawns rhyngwladol o ansawdd uchel ar ffurf eisteddfodol sy'n llwyddo i ddenu cystadleuwyr o bob cwr o'r byd. Mae'r cyngherddau gyda'r nos yn cynnwys perfformiadau gan artistiaid proffesiynol o'r safon uchaf lle caiff amryw o ffurfiau cerddorol eu cynrychioli, gan gynnwys cerddoriaeth glasurol, opera, canu corawl, jazz a roc. Mae'r cyngherddau gyda'r nos hefyd yn cynnwys dau o'n cystadlaethau mwyaf nodedig, sef Côt y Byd a Llais Rhyngwladol y Dyfodol.

Am wybodaeth lawn ar raglen 2019 ewch i'n gwefan <https://international-eisteddfod.co.uk/>

Yn ychwanegol at y rhaglen yn y prif bafiliwn, cynhelir gweithgareddau ar hyd a lled maes yr Eisteddfod hefyd gyda llwyfannau allanol ac ardaloedd perfformio. Rydym hefyd yn ymgymryd â gweithgareddau allanol yn y gymuned ac mae gennym brosiectau artistig allweddol blynyddol, fel ein prosiect Cynhwysiant a'r Neges Heddwch sy'n cynnwys plant lleol.

Prif Gyfrifoldebau

- Gweithio gyda'r Prif Swyddog Gweithrediadau a'r Swyddog Marchnata gyda gwaith cynllunio strategol hirdymor angenrheidiol er mwyn cyrraedd targedau datblygu cynulleidfa'r Eisteddfod, gan ryngweithio â phob rhan o'r sefydliad
- Gyrru newid ar draws y sefydliad lle bo'r angen er mwyn cyflawni'r nodau marchnata strategol cytûn

- Arwain ar ddatblygu strategaeth ymgyrchu ar gyfer y rhaglen gyngherddau, gan gynnwys gosod targedau ariannol a phrisio
- Arwain ar ddatblygu strategaeth ymgyrch i greu a meithrin marchnad ymwelwyr yn ystod y dydd
- Gweithio gyda'r Swyddog Marchnata i sefydlu cynlluniau gweithgarwch marchnata effeithiol a fydd yn cyflawni nodau'r ymgyrch
- Creu neges brand brwdfrydig a fydd yn cyd-fynd â'n targed demograffig a sicrhau bod yr holl gyfathrebu yn cyd-fynd â'r brand
- Gweithio gydag asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus yr Eisteddfod i greu strategaeth gyfathrebu gydlynol
- Goruchwylio'r Swyddog Marchnata wrth ddyrannu a rheoli'r gyllideb farchnata
- Ymchwilio i brofiad y cwsmer wrth ryngweithio â'r sefydliad a gyrru gwelliannau
- Mynychu cyfarfodydd y grŵp swyddogion ac adrodd ar faterion datblygu busnes a gwneud argymhellion priodol
- Gweithio gyda'r Swyddog Marchnata a gweinyddydd y Swyddfa Docynnau er mwyn casglu data priodol i greu system werthuso gywir a defnyddiol a fydd yn sicrhau bod ein mewnwelediad o gynulleidfa craidd yr Eisteddfod yn parhau i dyfu
- Cynnal dadansoddiad parhaus o amgylchedd cystadleuol a thueddiadau defnyddwyr sy'n adnabod cyfleoedd refeniw yn gyson o ran ein cwsmeriaid craidd sefydledig a rheoli twf cyson
- Deall metreg perfformiad marchnata allweddol ac offer tracio i ddarparu ymchwil i'r farchnad, rhagolygon, dadansoddiadau cystadleuol, canlyniadau ymgyrchu a thueddiadau defnyddwyr er mwyn trosi canlyniadau yn fewnwelediad ymarferol
- Cydweithio â sefydliadau eraill gyda'r nod o godi proffil yr Eisteddfod a gwella gwybodaeth ac arfer yr Eisteddfod

Manyleb yr Unigolyn

Hanfodol:

- 10 mlynedd+ o brofiad mewn swydd farchnata uwch, yn ddelfrydol, ond nid yn hanfodol, o fewn y sector diwylliannol
- 5 mlynedd+ o brofiad mewn swydd oruchwylio neu reolaethol, yn ddelfrydol, ond nid yn hanfodol, o fewn y sector diwylliannol
- Hanes profedig o gynllunio a rheoli ymgyrchoedd mawr sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa yn llwyddiannus
- Y gallu i feddwl yn greadigol wrth ddatblygu ymgyrchoedd marchnata
- Sgiliau arwain a dylanwadu cryf gyda phrofiad amlwg o yrru newid
- Mwynhau amgylchedd prysur, gweithio dan bwysau ac yn hyderus a phenderfynol
- Sgiliau rhyngpersonol, gwaith tîm a sgiliau gwneud penderfyniadau profedig
- Profiad o ddatblygu a mentora staff i gyflawni eu potensial a bodloni amcanion tîm
- Sgiliau cyfathrebu ac ysgrifennu copi rhagorol

Dymunol:

- Gwybodaeth weithredol o'r iaith Gymraeg
- Gwybodaeth fanwl o'r olygfa ddiwylliannol yng ngogledd Cymru a gogledd orllewin Lloegr a marchnad wyliau y DU
- Profiad o weithio gyda digwyddiadau rhyngwladol neu rwydweithiau rhyngwladol

Manylion Cytundebol

Teitl y Swydd: Cyfarwyddwr Datblygu Marchnata a Chynulleidfaoedd
Cytundeb: Swydd tymor sefydlog yw hon am 18 mis
Lleoliad: Swyddfa'r Eisteddfod, Y Pafiliwn Brenhinol Rhyngwladol, Llangollen
Cyflog: £38,000 - £ 42,000 pro rata yn dibynnu ar brofiad
Oriau: 15 awr yr wythnos; yr oriau swyddfa arferol yw o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9yb - 5yp
Yn ystod yr wythnosau cyn yr ŵyl, ac wythnos yr ŵyl ei hun, bydd angen gweithio oriau ychwanegol, gydag amser i ffwrdd yn cael ei roi yn lle'r cyfnodau hynny.
Gwyliau: 22 diwrnod ynghyd â Gwyliau Banc pro rata. Sylwer na ellir cymryd gwyliau yn ystod yr ŵyl neu yn ystod y 2 wythnos yn arwain at yr ŵyl.
Yn atebol i: Grŵp Swyddogion

Manylion y Cais

I wneud cais am y swydd hon, dylech gyflwyno eich CV cyfredol a ddylai gynnwys y canlynol:

- cymwysterau addysgol a phroffesiynol
- hanes gwaith
- manylion am brofiad a hyfforddiant perthnasol
- y cyfnod rhybudd sy'n ofynnol cyn gadael eich swydd bresennol

Yn ogystal, dylech gynnwys llythyr eglurhaol sy'n amlinellu'r sgiliau a'r profiad perthnasol sy'n eich gwneud yn addas ar gyfer y swydd ac sy'n ymdrin â Manyleb yr Unigolyn a'r Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Allweddol. Ni ddylai eich llythyr eglurhaol fod yn fwy nag 1 ochr A4.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn y cais yw **15 Mawrth 2019**. Dylech gyflwyno eich cais trwy gyfrwng e-bost at Sian Eagar (Prif Swyddog Gweithrediadau) yn sian.eagar@llangollen.net gan nodi Cyfarwyddwr Marchnata a Datblygu Cynulleidfa yn llinell testun yr e-bost. Bydd ymgeiswyr sy'n cael eu cynnwys ar y rhestr fer yn cael eu hysbysu o hynny trwy e-bost, a bydd cyfweiliadau'n cael i'w cynnal ar y **25 neu'r 26 Mawrth 2019**.